Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

# **Ynni Cymunedol Cymru – Community Energy Wales**'s submission to the DESNZ **call for evidence** on **barriers to community energy projects**

| **1. Which type of stakeholder is responding?** |
| --- |
| f. Other |

| **2. Where are you, or your organisation, responding from within UK?** |
| --- |
| Wales |

| **3. What are the barriers, financial and non-financial, preventing the establishment, development, and scaling of community energy projects? Please include any relevant quantitative and qualitative evidence.** |
| --- |
| **Ynni Cymunedol Cymru** – **Community Energy Wales** has assembled a table (overleaf) to show the key barriers to community energy projects in a simplified, easy-to-read format along with the existing sources of evidence for those barriers. Most of the evidence shown is historic, and serves more than anything else to highlight that the barriers are well known to DESNZ after having been documented previously by DESNZ and its precedent departments of the UK Government. In this context, we assert that the most pernicious and enduring barrier to the scaling up of the community energy opportunity is the failure by DESNZ and Westminster colleagues to act on these barriers. |

<table>
<tr><th colspan="2">Barriers</th><th>Responsibility</th><th>Existing evidence (source)</th></tr>
<tr><td colspan="4">establishing community energy projects</td></tr>
<tr><td>financial</td><td>1. Lack of shared ownership opportunities due to hesitation/reticence from some developers<br><br>2. Shortage of funding for feasibility studies / project start-up costs<br><br>3. Lack of financial incentives to promote new projects since removal of tariffs</td><td rowspan="2">UK Government<br><br>(DESNZ)</td><td>Community Energy Wales Shared Ownership<br>“Making Better Projects Together. The Welsh Government have set an expectation for all new energy projects in Wales to have at least an element of local ownership from 2020. This policy statement re-enforces the need for developers to work with the communities hosting energy projects to ensure they retain benefit from generation in Wales.”<br><br>CEW State of the Sector Report 2023<br>p. 4: “Many of the challenges [...] persisted into 2022. This includes [...] lack of feasibility funding”<br><br>UK Govt Community Energy Strategy summary<br>p. 11: “Community projects often struggle to access investment, particularly at the early stage when projects are higher risk. They also face a ‘finance gap’ which makes it hard to access project finance in the range of a few hundred thousand to two million pounds”<br><br>CEE policy proposals<br>“policy uncertainty and cuts to and removal or ending of ROCs, the Feed-in Tariff, Export Tariff, the Urban and Rural Community Energy Fund and Tax Relief caused a previously dynamic sector to stall”<br><br>CEW State of the Sector Report 2023<br>p. 29: “Limited access to start up finance, limited capacity in terms of technically trained personnel, reliance on volunteers, and the lack of financial incentives (nothing has replaced the feed-in tariff) are all challenges that remain for the sector”</td></tr>
<tr><td>non-financial</td><td>1. Lack of awareness of community energy and its benefits<br><br>2. Deprioritisation of community energy in policy since 2015; ignoring Community Energy Strategy</td><td>Ipsos survey commissioned by Bristol Energy Coop (BEC) in November 2023<br>Only 13% of the British public consider themselves ‘aware of’ the concept of community energy, with 68% never having heard of it.<br><br>Commons Library briefing paper - Community Energy<br>p.4: “The Government does not have a current strategy specifically targeted to community energy”<br><br>gov.uk pages<br>Informal advisory body Community Energy Contact Group shut down, although now set to reopen after Feb 2024 as part of the Net Zero Strategy.</td></tr>
</table>

| **developing** and **scaling** community energy projects | | | |
|---|---|---|---|
| financial | 1. Lack of **ongoing revenue support** or **certainty** (as provided by CfD or export tariff)<br><br>2. Lack of **potential for local energy trading** (also feeds in to an energy ***just transition***) | **UK Government**<br><br>**(DESNZ)** | 2021 letter "Removing the barriers to the development of community energy" from the Environmental Audit Committee to the Secretary of State at the Department of Business, Energy and Industrial Strategy<br>p. 3: "Although the Smart Export Guarantee has replaced the Feed-in Tariffs, the community energy sector suggested that the Smart Export Guarantee is flawed because it provides **no minimum export price**, and **no long-term certainty** beyond 12-month periods. It puts the community energy sector at a disadvantage to larger renewable energy projects which receive long-term certainty from Contracts for Difference."<br>UK Govt Community Energy Strategy summary<br>p.11 "Some community energy projects would like to be able to supply electricity to consumers directly"<br>Community Energy Wales Just Transition policy paper<br>"For Community Energy Wales, a just transition provides people with the opportunity to use local natural resources to generate and trade power from community-owned renewable energy generation, storage and distribution assets." |
| non-financial | 1. Difficulties in **navigating systems related to regulation, planning and network access**<br><br>**2. Inconsistency in** support provided by local authorities **to community energy projects**<br><br>3. Lack of applicable **skills for young people** entering the work market<br><br>4. Lack of access to additional grid capacity | | UK Govt Community Energy Strategy summary<br>p.11: "Some regulatory processes can seem insurmountable, time-consuming and complex to community groups. Key issues include the speed and cost of connecting to the electricity network, navigating the planning process, and the regulations relating to hydropower projects."<br>2021 letter "Removing the **barriers to the development of community energy**" from the Environmental Audit Committee to the Secretary of State at the Department of Business, Energy and Industrial Strategy<br>p. 4: "However, despite the climate emergencies declared by over 70% of local authorities and the vital role community energy can play in supporting decarbonisation targets, [...] there is **inconsistency in the support provided by local authorities to community energy projects**. This is due to a **lack of financial resources and expertise**, **fragmented policy** (including the lack of a national strategy) and **variable knowledge about the importance of community energy in developing Local Energy plans**. Even where local authorities want to support community energy in their area, **councils have concerns over procurement regulations** that apply to being able to buy energy from their own community energy groups"<br>CEW State of the Sector Report 2023<br>p. 29: "A skills strategy connecting the further education sector to the community energy sector is needed to identify and provide the technical skills required by the sector"<br>CEW State of the Sector Report 2023<br>p. 9: "limitations on grid capacity and **scale-up potential of projects being prevented** due to **connection challenges and limitations**" |

| 4. **Please indicate whether the community energy scheme(s) you typically work with are urban or rural?** |
|---|
| **Ynni Cymunedol Cymru – Community Energy Wales** represents the interests of both urban *and* rural community energy schemes.<br>We are a membership body representing some 60 members in Wales, a majority of whom are community energy social enterprises along with a few associate / consultant members and some private sector developers working on delivering Welsh Government's Shared Ownership policy objective. |

| 5. **Are there any regional issues impeding community energy projects? Please include any relevant quantitative and qualitative evidence.** |
|---|
| As this consultation is addressed primarily to England, our key feedback on this point is the **exclusion of Wales** as a region. We collaborate with Community Energy England and Community Energy Scotland on annual State of the Sector reports and recommend that the case studies within these reports are studied with a view to understanding specific regional and local stories about both addressing barriers and the value of successes achieved in the sector to date despite these barriers.<br>With respect to the question above regarding rural and urban communities, it is worth acknowledging that availability of renewable energy resources and the types of projects likely to be available to urban and rural communities are significantly different across these two categories. |

| 6. **Where you have identified possible or actual barriers, do you have any proposals for how these might be reduced or removed, and why do you think the actions you propose would be effective and appropriate? Please include any relevant quantitative and qualitative evidence.** |
|---|
| **Shared Ownership**: Welsh Government has a policy and has published guidance (Local and shared ownership of energy projects in Wales). CEW receives funding to support developers and community counterparties to work to 'make better projects together', and there is also some support available through the Welsh Government Energy Service (here). This is delivering some early-stage collaboration which is valuable progress, although more resource than currently available is really needed to fully capture the opportunity. Delivering early shared ownership proposals (such as Alwen Forest) will help more reluctant parties to follow success. Some recent reports (National Infrastructure Commission for Wales report on Preparing Wales for a Renewable Energy 2050, IWA Analysis: Sharing Power, Spreading Wealth) are calling for a strengthening of policy to make it binding, rather than just guidance.<br><br>**Shortage of funding & lack of financial incentives**: Welsh Government have grown the basis of a strong Community Sector in Wales by resourcing nearly 15 years of officer and feasibility grant funding ( Energy Service (for public sector and community groups) \| GOV.WALES) and capital loan support through Development Bank of Wales's Community Energy Fund (Welsh Government Local Energy Fund). However, the sector is significantly stalled since the removal of Feed in Tariffs. Welsh Government have started to make capital grants available, but market-based solutions such as enabling local trading, growth through the development of community-led whole energy systems behind primary substations and procurement of local energy by statutory bodies will offer a more sustainable solution. There will remain a need to prime the pipeline with feasibility as local markets take off, but after a certain point, frontend support can be replaced by cycling profits from the establishing scaled-up sector. We recommend that the £10 m start-up |

fund should be seen as the first small seed to this and that ambitious budgets should be made available.

**Lack of awareness / deprioritisation of community energy**: can partly be met by education and engagement by the sector, but there is also the failure on the part of government to listen, read the reports already provided, and join up public expectations (such as the ability to buy locally generated energy) with regulatory and policy leadership. Nothing illustrates this so well as the removal of the local trading clause from the 2023 Energy Bill. Distributed renewable generation should have a profound democratising impact on our decarbonised energy system – DESNZ appears to be ignoring its own findings and the recommendations of the Community Energy Contact Group and doing everything possible to maintain a heavily top-down, unjust and inefficient delivery model for decarbonisation.

There is also troubling evidence of a low level of public awareness about the funding needed for education and engagement to bring society along with a community-led transition. Community energy will require increased funding for education and upskilling, something which the sector has realised and started to invest time and resources in via a newly created **Energy Learning Network**. The network will be delivered by a partnership of Ashden Climate Solutions (Ashden), Community Energy England (CEE), Community Energy Scotland (CES), Community Energy Wales (CEW), Action Renewables (AR) and Centre for Sustainable Energy (CSE) and is funded by the National Lottery Fund. The partnership will seek to achieve the following outcomes: (1) Local and regional community energy groups throughout the UK have more skills and capacity to deliver effective community energy projects; (2) Better mechanisms for cross-nation learning and collaboration between community energy groups in the UK; (3) Improved collaboration between community energy groups and key enabling stakeholders (incl. local authorities, local councils and financiers) at local, regional and national level; (4) More, and more diverse, groups delivering community action on energy.
Whilst the funds from the National Lottery will allow us to get the network up and running and start delivering on the outcomes above, **further government support and investment in the network** could help us to achieve much more, particularly in relation to building new more diverse groups in areas where there have been few community energy initiatives.

**Lack of potential for local energy trading**: our Just transition policy document lays out a basic set of principles and benefits to enabling local energy trading. Since this paper was drafted significant additional work has been done in Wales, not least in the context of the establishment of Ynni Cymru, to evolve thinking around the delivery of local energy trading opportunities, and the following potential to join up and maximise local, democratising distribution of renewable generation to whole energy systems, meeting increasing power demands for heat and transport. The failure of Licensed Energy Suppliers to develop the data management systems and provide dual billing for energy clubs which are crying out to establish across the UK (e.g. Energy Local) must be addressed whether by establishing Ynni Cymru or GB Energy to provide a local, primary substation market or by supporting and mandating the provision of the necessary data and billing functions by Licensed Energy Suppliers. The Power for People campaign offered a missed opportunity to incorporate this objective in law last year, but we also question whether the current process for raising modifications to market regulation under OFGEM are fit for purpose. Ther may remain a case for DESNZ to add a requirement to facilitate local energy trading within existing regulation and the small suppliers exemptions (Statutory Instrument 3270) to Ofgem's letter of remit.

**Difficulties in navigating systems related to regulation, planning and network access**: grant funding to support project development from early feasibility through consenting is the first and most obvious way to resolve these issues. However, there is a case to be made for creating streamlined or supported processes with all of the above issue for local, community-led projects, recognising that they cannot enter the market on a level playing field with large scale developers who are able to lever the efficiencies of scale and portfolio, the luxury of a choice of location (place based communities have only the natural resources and infrastructure presented by their particular locational circumstances). The evidence supplied makes numerous recommendations and suggestions for such streamlining.

**7. Which existing or past government support mechanisms and policies have been most helpful in implementing community energy projects and why? Please include any relevant quantitative and qualitative evidence.**

Please see the State of the Sector reports (CEE/CES, CEW).
The key support mechanism that allowed the CE sector to take off at all was the **Feed-in Tariff** (although there are early, pioneer instances of CE projects supported by the earlier ROC regime). The **provision of feasibility and development stage funding** has also been a critical success factor and has supported community energy projects in all nations under various grant and support systems. **Shared Ownership** policies in Scotland and Wales are starting to show evidence of successful shared ownership projects in progress, and this area of growth has some potential to ensure that communities local to larger scale developments (which are only possible due to the size of investment required from developers) are able to share in the benefits created by those projects.

| 8. **Could you share any evidence, either quantitative or qualitative, demonstrating how community energy projects are supporting the delivery of the UK's national net zero targets and providing additional benefits (e.g. reducing fuel poverty and improving community well-being).** |
|---|
| Please see evidence in the table above, and in numerous State of the Sector reports and findings of your own government committees and reports.<br>The Community Energy Wales State of the Sector report 2023 is full of case studies, including:<br>• (p.11) **Gower Power**'s significant social and economic benefits across Swansea: over £55,000 of surplus funds used for local and environmental benefits, 'Cocoon' – a community wellbeing outreach project, and Cae Tan CSA's Sustainable Schools programme.<br>• (p. 17) **Energy Local Corwen**: delivering annual electricity bill reductions of up to £300 per household and serving an educational purpose by actively engaging users in the process of aligning energy supply with demand, thereby facilitating more efficient management of the electricity network.<br>• (p. 25) **Cwm Arian** employs a dozen individuals, specifically concentrating on energy efficiency and related issues such as fuel poverty through their energy support service. They also provide a call-out service to assess the energy efficiency of people's homes and provide practical support like offering subsidised or free thermal imaging and have started to provide energy consultancy for buildings such as community halls.<br><br>**It really is inexcusable for DESNZ to be admitting here to a shortfall in understanding the massive additional value offered by CE to decarbonisation and to wider community and societal benefit on multiple vectors.**<br>There is one area to highlight here where there is a lack of evidence, and this is likely to be missed yet again by the rollout of LAEPs. If local energy trading were enabled, this would release a huge pipeline potential for local generators. As far as we are aware, no in-depth studies have been done to explore how maximising distributed generation and connecting it to balancing demand behind a single primary substation might scale up. We should be seeking to achieve this scale up as a primary lever within the net zero strategy, and setting any target (for example, **10% of local demand to be supplied by local, sub-5 MW renewable generation**) would be extremely helpful in focusing ambition for our communities on this objective. This scale up would not only deliver materially on decarbonisation targets but across all the multiple benefits evidenced in the reports you already have at your disposal. |

| 9. **Could you share any evidence, either quantitative or qualitative, of the wider system impacts (positive and negative) of community energy schemes and how any negative impacts can be mitigated.** |
|---|
| The meaning of the word ‘system’ in this question lacks clarity.<br><br>CEW is aware of some feedback raising concerns of ‘unintended consequences’ in the regulatory system or on distribution infrastructure, and concerns that enabling community energy customers to benefit from the reduced costs of energy supplied in local markets may be inequitable. We do not agree that there is good evidence to support this case, nor do we support the principle that because one community cannot benefit from, for example, local wind energy, all communities should be prevented from doing the same. On the contrary, we believe that a democratising and open market principle of allowing all communities to do what they can for themselves has better utility and is aligned to delivering a just transition. We do not make the case for local energy supply to avoid system charges altogether, but only to avoid charges for parts of the system NOT used as a function of the balancing of local supply and demand. Our conversations with DNOs suggest a beneficial and critically necessary reduction in local grid upgrades can be achieved in a scenario where the benefits of local markets in balancing supply and demand at primary substation level are maximised.<br><br>We summarise the main qualitative benefit of local energy markets and further positive impacts in our Just Transition policy paper, which covers everything from transparent billing and community representation to social justice and local empowerment:<br>“People should be the primary beneficiaries of efficiencies achieved through smart technology, grid balancing and reduced use at peak times (Energy Local is an example of a concept that under different market conditions could do this). With access to their own data, people should be able to make the most efficient use of local infrastructure by matching demand to supply.<br>A just transition facilitates distributive and procedural justice. As well as being able to benefit from community owned energy generation and distribution, we want to maximise citizens’ involvement and shared participation in energy decision-making and governance. People’s active involvement in their local community energy groups helps to do this and we are working for more people to get involved.<br>Furthermore, the community energy sector addresses both energy and social justice through community benefit funds in response to identified local need. The community projects funded are often catalysts in providing a wider range of local sustainability initiatives in communities.” |

# Cyflwyniad **Ynni Cymunedol Cymru – Community Energy Wales** mewn ymateb i **alwad** yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ) am **dystiolaeth o rwystrau i brosiectau ynni cymunedol**

| **10. Pa fath o randdeiliad sy'n ymateb?** |
|---|
| f. Arall |

| **11. O ble o fewn y DU rydych chi, neu eich sefydliad, yn ymateb?** |
|---|
| Cymru |

| **12. Beth yw'r rhwystrau, ariannol ac anariannol, sy'n atal sefydlu, datblygu a chynyddu prosiectau ynni cymunedol? Cofiwch gynnwys unrhyw dystiolaeth feintiol ac ansoddol berthnasol.** |
|---|
| Mae **Ynni Cymunedol Cymru – Community Energy Wales** wedi llunio tabl (dros y ddalen) i ddangos y prif rwystrau sy'n atal prosiectau ynni cymunedol mewn fformat syml, hawdd ei ddarllen ynghyd â'r ffynonellau tystiolaeth presennol ar gyfer y rhwystrau hynny. Mae'r mwyafrif o'r dystiolaeth a ddangosir yn hanesyddol, ac yn fwy na dim mae'n tynnu sylw at y ffaith bod y rhwystrau'n hysbys iawn i DESNZ ar ôl cael eu cofnodi o'r blaen gan DESNZ ac adrannau blaenorol yn Llywodraeth y DU. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn datgan mai'r rhwystr mwyaf andwyol a pharhaus i gynyddu'r cyfle i gael ynni cymunedol yw methiant DESNZ a chydweithwyr yn San Steffan i weithredu ar y rhwystrau hyn. |

<table>
<tr><th colspan="2">Rhwystrau</th><th>Cyfrifoldeb</th><th>Tystiolaeth bresennol (ffynhonnell)</th></tr>
<tr><td colspan="4">sefydlu prosiectau ynni cymunedol</td></tr>
<tr><td>ariannol</td><td>1. Diffyg cyfleoedd o ran cydberchnogaeth oherwydd petruster/amharodrwydd rhai datblygwyr<br><br>2. Prinder cyllid ar gyfer astudiaethau dichonoldeb / costau dechrau prosiect<br><br>3. Diffyg cymhellion ariannol i hyrwyddo prosiectau newydd ers dileu tariffau</td><td rowspan="2">Llywodraeth y DU<br><br>(DESNZ)</td><td>Cydberchnogaeth Ynni Cymunedol Cymru<br>“Gwneud Prosiectau Gwell Gyda’n Gilydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod disgwyl i bob prosiect ynni newydd yng Nghymru gael elfen o berchnogaeth leol o leiaf o 2020 ymlaen. Mae’r datganiad polisi hwn yn atgyfnerthu’r angen i ddatblygwyr weithio gyda’r cymunedau sy’n cynnal prosiectau ynni i sicrhau eu bod yn parhau i elwa o gynhyrchu yng Nghymru.”<br><br>Adroddiad Cyflwr y Sector Ynni Cymunedol Cymru 2023<br>t 4: “Roedd llawer o’r heriau [...] yn dal i fodoli yn 2022. Mae hyn yn cynnwys [...] diffyg cyllid ar gyfer astudiaethau dichonolrwydd”<br><br>Crynodeb o Strategaeth Ynni Cymunedol Llywodraeth y DU<br>t 11: “Mae prosiectau cymunedol yn aml yn ei chael yn anodd denu buddsoddiad, yn enwedig yn y cyfnod cynnar pan mae prosiectau yn cynrychioli risg uchel. Maen nhw hefyd yn wynebu ‘bwlch cyllid’ sy’n ei gwneud yn anodd cael gafael ar gyllid ar gyfer y prosiect o ychydig gannoedd o filoedd i dwy filiwn o bunnoedd”.<br><br>Cynigion polisi Community Energy England<br>“Mae ansicrwydd ynghylch polisi a thoriadau o ran Tystysgrifau Rhwymo i Ynni Adnewyddadwy (ROC), y Tariff Cyflenwi Trydan, Tariff Allgludo, y Gronfa Ynni Cymunedol Trefol a Gwledig a Rhyddhad Treth wedi achosi i sector a oedd gynt yn ddeinamig arafu”.<br><br>Adroddiad Cyflwr y Sector Ynni Cymunedol Cymru 2023<br>t 29: “Heriau sy’n dal i wynebu’r sector yw diffyg mynediad i gyllid cychwynnol, diffyg gallu o ran pobl sydd wedi cael hyfforddiant technegol, dibyniaeth ar wirfoddolwyr a diffyg cymhellion ariannol (ni chafwyd dim byd yn lle’r tariff cyflenwi trydan).”</td></tr>
<tr><td>anariannol</td><td>1. Diffyg ymwybyddiaeth o ynni cymunedol a’i fanteision.<br><br>2. Gostwng lefel blaenoriaeth ynni cymunedol mewn polisi ers 2015; anwybyddu’r Strategaeth Ynni Cymunedol</td><td>Arolwg Ipsos a gomisiynwyd gan Bristol Energy Coop (BEC) ym mis Tachwedd 2023<br>Dim ond 13% o’r cyhoedd ym Mhrydain sy’n ystyried eu hunain yn ‘ymwybodol’ o’r cysyniad o ynni cymunedol, gyda 68% heb glywed amdano erioed.<br><br>Papur Briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin - Ynni Cymunedol<br>t 4: “Nid oes gan y Llywodraeth strategaeth gyfredol sydd wedi’i thargedu’n benodol at ynni cymunedol”<br><br>tudalennau gov.uk<br>Mae’r corff cynghori anffurfiol, Grŵp Cyswllt Ynni Cymunedol, wedi cau, er ei fod bellach i fod i ailagor ar ôl mis Chwefror 2024 fel rhan o’r Strategaeth Sero Net.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="4">datblygu a chynyddu prosiectau ynni cymunedol</th></tr>
<tr><td>ariannol</td><td>1. Diffyg sicrwydd neu gymorth refeniw parhaus (fel y darperir gan y Contract ar gyfer Gwahaniaeth (CfD) neu'r tariff allgludo)<br><br>2. Diffyg potensial ar gyfer masnachu ynni lleol (hefyd yn bwydo i mewn i bontio teg ym maes ynni)</td><td rowspan="2">Llywodraeth y DU<br><br>(DESNZ)</td><td>Llythyr 2021 "Removing the barriers to the development of community energy" oddi wrth y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol<br>t 3: "Er bod y Gwarant Allforio Doeth wedi disodli'r Tariffau Cyflenwi Trydan, awgrymodd y sector ynni cymunedol fod y Warant Allforio Doeth yn ddiffygiol oherwydd nad yw'n darparu pris allgludo isaf, ac nid oes sicrwydd tymor hir y tu hwnt i gyfnodau o 12 mis. Mae'n rhoi'r sector ynni cymunedol dan anfantais o'i gymharu â phrosiectau ynni adnewyddadwy mwy sy'n cael sicrwydd tymor hir gan Gontractau ar gyfer Gwahaniaeth."<br><br>Crynodeb o Strategaeth Ynni Cymunedol Llywodraeth y DU<br>t.11: "Byddai rhai prosiectau ynni cymunedol yn hoffi gallu cyflenwi trydan i ddefnyddwyr yn uniongyrchol"<br><br>Papur polisi Pontio Teg Ynni Cymunedol Cymru<br>"I Ynni Cymunedol Cymru, mae pontio'n gyfiawn yn galluogi pobl i ddefnyddio adnoddau naturiol lleol i gynhyrchu a masnachu egni o asedau cynhyrchu, storio a dosbarthu ynni sydd o dan berchnogaeth gymunedol".</td></tr>
<tr><td>anariannol</td><td>1. Anawsterau o ran llywio drwy systemau sy'n ymwneud â rheoleiddio, cynllunio a mynediad i'r rhwydwaith<br><br>2. Anghysondeb yn y cymorth y mae awdurdodau lleol yn ei ddarparu i brosiectau ynni cymunedol<br><br>3. Diffyg sgiliau perthnasol ar gyfer pobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad waith<br><br>4. Diffyg mynediad at gapasiti grid ychwanegol</td><td>Crynodeb o Strategaeth Ynni Cymunedol Llywodraeth y DU<br>t 11: "Mae rhai prosesau rheoleiddio yn gallu ymddangos yn anorthrech, yn cymryd llawer o amser ac yn gymhleth i grwpiau cymunedol. Mae'r prif ystyriaethau yn cynnwys cyflymder a chost cysylltu i'r rhwydwaith trydan, llywio'r broses gynllunio, a'r rheoliadau sy'n ymwneud â phrosiectau ynni dŵr".<br><br>Llythyr 2021 "Removing the barriers to the development of community energy" oddi wrth y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol<br>t 4: "Fodd bynnag, er gwaethaf yr argyfyngau hinsawdd a ddatganwyd gan dros 70% o awdurdodau lleol a'r rôl hanfodol y gall ynni cymunedol ei chwarae o ran cefnogi targedau datgarboneiddio, mae anghysondeb yn y cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol i brosiectau ynni cymunedol. Mae hyn oherwydd diffyg adnoddau ac arbenigedd ariannol, polisi tameidiog (gan gynnwys diffyg strategaeth genedlaethol) a gwybodaeth amrywiol am bwysigrwydd ynni cymunedol wrth ddatblygu cynlluniau Ynni Lleol. Hyd yn oed pan fydd awdurdodau lleol eisiau cefnogi ynni cymunedol yn eu hardal, mae gan gynghorau bryderon ynghylch rheoliadau caffael sy'n berthnasol i allu prynu ynni gan eu grwpiau ynni cymunedol eu hunain"<br><br>Adroddiad Cyflwr y Sector Ynni Cymunedol Cymru 2023<br>t 29: "Mae angen strategaeth sgiliau i gysylltu'r sector addysg bellach â'r sector ynni cymunedol er mwyn adnabod a darparu'r sgiliau technegol sydd eu hangen ar y sector"<br><br>Adroddiad Cyflwr y Sector Ynni Cymunedol Cymru 2023<br>t. 7: "Mae heriau a chyfyngiadau o ran cysylltu yn cyfyngu ar gapasiti'r grid ac yn atal prosiectau rhag ehangu."</td></tr>
</table>

| 13. Nodwch a yw'r cynllun(iau) ynni cymunedol rydych chi'n gweithio gyda nhw fel arfer yn rhai trefol neu'n rhai gwledig? |
| --- |
| Mae **Ynni Cymunedol Cymru – Community Energy Wales** yn cynrychioli buddiannau cynlluniau ynni cymunedol trefol *a* gwledig.<br>Rydym yn gorff aelodaeth sy'n cynrychioli tua 60 o aelodau yng Nghymru, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn fentrau cymdeithasol ynni cymunedol ynghyd ag ychydig o aelodau cyswllt / ymgynghorol a rhai datblygwyr yn y sector preifat sy'n gweithio ar gyflawni amcan polisi Cydberchnogaeth Llywodraeth Cymru. |

| 14. A oes unrhyw faterion rhanbarthol sy'n rhwystro prosiectau ynni cymunedol? Cofiwch gynnwys unrhyw dystiolaeth feintiol ac ansoddol berthnasol. |
| --- |
| Gan fod yr ymgynghoriad hwn wedi'i anelu'n bennaf at Loegr, ein prif adborth ar y pwynt hwn yw **eithrio Cymru fel rhanbarth**. Rydym yn cydweithio â Community Energy England a Community Energy Scotland ar adroddiadau blynyddol am Gyflwr y Sector ac rydym yn argymell bod yr astudiaethau achos yn yr adroddiadau hyn yn cael eu hastudio gyda golwg ar ddeall straeon rhanbarthol a lleol penodol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â rhwystrau a gwerth llwyddiannau a gyflawnwyd yn y sector hyd yma er gwaethaf y rhwystrau hyn.<br>O ran y cwestiwn uchod ynghylch cymunedau gwledig a threfol, mae'n werth cydnabod bod argaeledd adnoddau ynni adnewyddadwy a'r mathau o brosiectau sy'n debygol o fod ar gael i gymunedau trefol a gwledig yn dra gwahanol ar draws y ddau gategori hyn. |

| 15. Os ydych chi wedi nodi rhwystrau posibl neu wirioneddol, a oes gennych chi unrhyw gynigion ynghylch sut y gellid lleihau neu ddileu'r rhain, a pham ydych chi'n meddwl y byddai'r camau gweithredu rydych chi'n eu cynnig yn effeithiol ac yn briodol? Cofiwch gynnwys unrhyw dystiolaeth feintiol ac ansoddol berthnasol. |
| --- |
| **Cyd-berchnogaeth**: mae gan Lywodraeth Cymru bolisi ac mae wedi cyhoeddi canllawiau, sef (Perchnogaeth leol a rhanberchnogaeth prosiectau ynni). Mae Ynni Cymunedol Cymru yn cael cyllid i gefnogi datblygwyr ac eraill yn y gymuned sy'n rhan o hyn i weithio i 'wneud prosiectau gwell gyda'n gilydd', ac mae rhwyfaint o gymorth hefyd ar gael drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (yma). Mae hyn wedi ysgogi rhywfaint o gydweithio cynnar, sy'n gynnydd gwerthfawr, er bod angen mwy o adnoddau nag sydd ar gael ar hyn o bryd mewn gwirionedd i fanteisio'n llawn ar y cyfle. Bydd cyflwyno cynigion rhanberchnogaeth cynnar (fel *Alwen Forest*) yn helpu partïon mwy amharod i ddilyn llwyddiant. Mae rhai adroddiadau diweddar fel (adroddiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ar Baratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050, Dadansoddiad y Sefydliad Materion Cymreig: Sharing Power, Spreading Wealth [Rhannu Pŵer, Lledu Cyfoeth]) yn galw am gryfhau polisi i'w wneud yn rhwymol, yn hytrach na dim ond canllawiau.<br><br>**Prinder cyllid a diffyg cymhellion ariannol**: mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r sylfaen ar gyfer Sector Cymunedol cryf yng Nghymru drwy ddarparu cyllid grant ar gyfer swyddogion ac astudiaethau dichonoldeb am bron i 15 mlynedd (Y Gwasanaeth Ynni (ar gyfer grwpiau'r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol) \| LLYW.CYMRU) a chymorth benthyca cyfalaf drwy Gronfa Ynni Cymunedol Banc Datblygu Cymru (Cronfa Ynni Lleol Llywodraeth Cymru). Fodd bynnag, mae'r sector wedi arafu'n sylweddol ers dileu y Tariffau Cyflenwi Trydan. Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau darparu grantiau cyfalaf, ond bydd atebion sy'n seiliedig ar y farchnad fel galluogi masnachu lleol, twf drwy ddatblygu systemau ynni cyfan sy'n cael eu harwain gan y gymuned y tu ôl i brif is-orsafoedd a chyrff statudol yn caffael ynni yn cynnig ateb mwy cynaliadwy. Bydd angen paratoi o hyd drwy astudio dichonoldeb y biblinell wrth i farchnadoedd lleol ddechrau a ffynnu, ond wedi cyrraedd pwynt penodol, gellir disodli cymorth pen blaen ag ailgylchu elw o'r sector sy'n |

sefydlu ei hun ac yn tyfu. Rydym yn argymell y dylid ystyried y cyllid dechrau busnes o £10 m fel yr hedyn bach cyntaf yn hyn o beth ac y dylid darparu cyllidebau uchelgeisiol.

**Diffyg ymwybyddiaeth / gostwng lefel blaenoriaeth ynni cymunedol**: gellir ymdopi â hyn yn rhannol drwy addysgu ac ymgysylltu ar ran y sector, ond mae methiant hefyd ar ran y llywodraeth i wrando, darllen yr adroddiadau sydd eisoes wedi'u darparu, a chyfuno disgwyliadau'r cyhoedd (fel y gallu i brynu ynni a gynhyrchir yn lleol) ag arweinyddiaeth reoleiddiol a pholisi. Nid oes dim yn dangos hyn yn well na dileu'r cymal masnachu lleol o Fil Ynni 2023. Dylai cynhyrchu ynni adnewyddadwy gwasgaredig gael effaith enfawr ar ein system ynni wedi'i datgarboneiddio o ran ei gwneud yn hygyrch i bawb – mae'n ymddangos bod DESNZ yn anwybyddu ei ganfyddiadau ei hun ac argymhellion y Grŵp Cyswllt Ynni Cymunedol ac yn gwneud popeth o fewn ei allu i gynnal model cyflenwi o'r brig i lawr aneffeithlon, anghyfiawn yng nghyswllt datgarboneiddio.

Mae tystiolaeth hefyd o lefel isel o ymwybyddiaeth gyhoeddus am y cyllid sydd ei angen ar gyfer addysg ac ymgysylltu er mwyn cael cefnogaeth y gymdeithas i drawsnewid sy'n cael ei arwain gan y gymuned ac mae hyn yn destun pryder. Bydd ynni cymunedol angen mwy o gyllid ar gyfer addysg ac uwchsgilio, ac mae'r sector wedi sylweddoli hyn ac o ganlyniad mae wedi dechrau buddsoddi amser ac adnoddau ynddo drwy'r **Rhwydwaith Dysgu Ynni** sydd newydd ei greu. Bydd y rhwydwaith yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth rhwng Ashden Climate Solutions (Ashden), Community Energy England (CEE), Community Energy Scotland (CES), Ynni Cymunedol Cymru (CEW), Action Renewables (AR) a'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy (CSE) ac fe'i hariennir gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol. Bydd y bartneriaeth yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol: (1) Bydd gan grwpiau ynni cymunedol lleol a rhanbarthol ledled y DU fwy o sgiliau a chapasiti i gyflawni prosiectau ynni cymunedol effeithiol; (2) Mecanweithiau gwell ar gyfer dysgu a chydweithio ar draws y gwledydd rhwng grwpiau ynni cymunedol yn y DU; (3) Gwell cydweithio rhwng grwpiau ynni cymunedol a rhanddeiliaid galluogi allweddol (gan gynnwys awdurdodau lleol, cynghorau lleol ac ariannwyr) ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol; (4) Mwy o grwpiau mwy amrywiol yn cyflawni gweithredu cymunedol ar ynni.
Er y bydd y cyllid gan y Loteri Genedlaethol yn ein galluogi i sefydlu'r rhwydwaith a dechrau cyflawni'r canlyniadau uchod, gallai **rhagor o gymorth a buddsoddiad ar ran y llywodraeth yn y rhwydwaith** ein helpu i gyflawni llawer mwy, yn enwedig mewn perthynas â chreu grwpiau newydd mwy amrywiol mewn ardaloedd lle nad oes llawer o fentrau ynni cymunedol wedi bod.

**Diffyg potensial o ran masnachu ynni lleol**: mae ein dogfen bolisi, Pontio Teg yn nodi set sylfaenol o egwyddorion a manteision mewn perthynas â galluogi masnachu ynni lleol. Ers drafftio'r papur hwn, mae llawer o waith ychwanegol wedi'i wneud yng Nghymru, yn anad dim yng nghyd-destun sefydlu Ynni Cymru, i ddatblygu syniadau ynghylch darparu cyfleoedd masnachu ynni lleol, a'r potensial yn sgil hynny i gyfuno a chynyddu dosbarthu cynhyrchu adnewyddadwy lleol i systemau ynni cyfan, gan fodloni'r galw cynyddol am bŵer ar gyfer gwres a thrafnidiaeth. Rhaid mynd i'r afael â methiant Cyflenwyr Ynni Trwyddedig i ddatblygu systemau rheoli data a darparu biliau deuol ar gyfer clybiau ynni sy'n galw'n daer am gael eu sefydlu ledled y DU (e.g. Ynni Lleol), boed hynny drwy sefydlu Ynni Cymru neu GB Energy i ddarparu marchnad prif is-orsaf leol, sylfaenol neu drwy gefnogi a gorfodi Cyflenwyr Ynni Trwyddedig i ddarparu'r swyddogaethau data a bilio angenrheidiol. Roedd yr ymgyrch Power for People yn gyfle a gollwyd i ymgorffori'r amcan hwn yn y gyfraith y llynedd, ond rydym hefyd yn cwestiynu a yw'r broses bresennol ar gyfer gwneud addasiadau i reoliadau'r farchnad o dan OFGEM yn addas i'r diben. Efallai bod achos yn dal i fod o blaid DESNZ yn ychwanegu gofyniad i hwyluso masnachu ynni lleol o fewn y rheoliadau presennol a'r eithriadau i gyflenwyr bach (Offeryn Statudol 3270) at lythyr cylch gorchwyl Ofgem.

**Anawsterau o ran llywio drwy systemau sy'n ymwneud â rheoleiddio, cynllunio a mynediad i'r rhwydwaith**: cyllid grant i gefnogi datblygiad prosiect o'r cam dichonoldeb cynnar drwy

gydsynio yw'r ffordd gyntaf a mwyaf amlwg o ddatrys y materion hyn. Fodd bynnag, mae achos i'w gyflwyno dros greu prosesau wedi'u symleiddio neu eu cefnogi yng nghyswllt pob un o'r materion uchod ar gyfer prosiectau lleol sy'n cael eu harwain gan y gymuned, gan gydnabod nad ydynt yn gallu ymuno â'r farchnad ar yr un lefel â datblygwyr sy'n gweithredu ar raddfa fawr ac sy'n gallu manteisio ar arbedion o ran maint a phortffolio, ac sydd â'r fantais o allu dewis lleoliad (dim ond yr adnoddau naturiol a'r seilwaith sydd ar gael yn eu lleoliad penodol hwy sydd gan gymunedau lle). Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn gwneud nifer o argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer symleiddio o'r fath.

**16. Pa bolisïau a mecanweithiau cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd neu oedd ar gael yn flaenorol gan y llywodraeth sydd wedi bod fwyaf defnyddiol wrth roi prosiectau ynni cymunedol ar waith, a pham? Cofiwch gynnwys unrhyw dystiolaeth feintiol ac ansoddol berthnasol.**

Gweler yr adroddiadau ar Gyflwr y Sector (CEE/CES, CEW).
Y prif fecanwaith cymorth a ganiataodd i'r sector Ynni Cymunedol ddechrau o gwbl oedd y **Tariff Cyflenwi Trydan** (er bod enghreifftiau cynnar, arloesol o brosiectau Ynni Cymunedol yn cael eu cefnogi o dan y drefn ROC flaenorol). Mae **darparu cyllid ar gyfer y cam dichonoldeb a datblygu** hefyd wedi bod yn ffactor llwyddiant allweddol ac mae wedi cefnogi prosiectau ynni cymunedol ym mhob gwlad o dan amrywiol systemau grantiau a chymorth. Mae polisïau **cydberchnogaeth** yng Nghymru a'r Alban yn dechrau dangos tystiolaeth o brosiectau rhanberchnogaeth llwyddiannus yn mynd rhagddynt, ac mae gan y maes twf hwn rywfaint o botensial i sicrhau bod cymunedau sy'n lleol i ddatblygiadau mwy (nad ydynt ond yn bosibl oherwydd maint y buddsoddiad sydd ei angen gan ddatblygwyr) yn gallu rhannu'r manteision sy'n cael eu creu gan y prosiectau hynny.

| **17. A allech chi rannu unrhyw dystiolaeth, meintiol neu ansoddol, sy'n dangos sut mae prosiectau ynni cymunedol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni targedau sero net cenedlaethol y DU ac yn darparu manteision ychwanegol (e.e. lleihau tlodi tanwydd a gwella llesiant cymunedol)?** |
|---|
| Gweler y dystiolaeth yn y tabl uchod, ac mewn nifer o adroddiadau ar Gyflwr y Sector a chanfyddiadau pwyllgorau ac adroddiadau eich llywodraeth eich hun.<br>Mae adroddiad Cyflwr y Sector Ynni Cymunedol Cymru 2023 yn llawn astudiaethau achos, gan gynnwys y canlynol:<br>• (t 11) Manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol **Gower Power** ar draws Abertawe: dros £55,000 o arian dros ben wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu manteision lleol ac amgylcheddol, 'Cocoon' – prosiect allgymorth llesiant cymunedol, a rhaglen Ysgolion Cynaliadwy Amaethyddiaeth â Chymorth Cymuned Cae Tan.<br>• (t 17) **Ynni Lleol Corwen**: darparu gostyngiadau blynyddol mewn biliau trydan o hyd at £300 fesul aelwyd a chyflawni diben addysgol drwy ennyn ymgysylltiad gweithredol defnyddwyr yn y broses o gysoni'r cyflenwad ynni â'r galw, a thrwy hynny hwyluso rheoli'r rhwydwaith trydan yn fwy effeithlon.<br>• (t 25) Mae **Cwm Arian** yn cyflogi dwsin o unigolion, gan ganolbwyntio'n benodol ar effeithlonrwydd ynni a materion cysylltiedig fel tlodi tanwydd drwy eu gwasanaeth cymorth ynni. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth galw allan i asesu effeithlonrwydd ynni cartrefi pobl ac yn darparu cymorth ymarferol fel cynnig delweddu thermol cymorthdaledig neu am ddim yn ogystal â dechrau darparu gwasanaeth ymgynghori ar ynni ar gyfer adeiladau fel neuaddau cymunedol.<br><br>**Mae'n wirioneddol anfaddeuol bod DESNZ yn cyfaddef yma bod diffyg dealltwriaeth o'r gwerth ychwanegol enfawr y mae Ynni Cymunedol yn ei gynnig o ran datgarboneiddio ac i fanteision cymunedol a chymdeithasol ehangach sawl fector.**<br>Mae angen tynnu sylw at un maes yma lle ceir diffyg tystiolaeth, ac mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei hepgor unwaith eto wrth i Gynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol gael eu cyflwyno. Pe bai masnachu ynni lleol yn cael ei alluogi, byddai hyn yn rhyddhau potensial enfawr o ran generaduron lleol. Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw astudiaethau manwl wedi cael eu cynnal i archwilio sut y gallai cynyddu cynhyrchu gwasgaredig a'i gysylltu â chydbwyso'r galw y tu ôl i un prif is-orsaf gynyddu. Dylem fod yn ceisio cyflawni'r cynnydd hwn fel prif ysgogydd yn y strategaeth sero net, a byddai gosod unrhyw darged (er enghraifft, **10% o'r galw lleol i'w gyflenwi gan ynni adnewyddadwy lleol, is-5 MW**) yn ddefnyddiol iawn wrth ganolbwyntio uchelgais ein cymunedau yng nghyswllt yr amcan hwn. Byddai'r cynnydd hwn nid yn unig yn cyflawni'n sylweddol o ran targedau datgarboneiddio ond ar draws yr holl fanteision lluosog a ddangosir yn yr adroddiadau sydd eisoes ar gael gennych. |

| **18. A allech rannu unrhyw dystiolaeth, meintiol neu ansoddol, o'r effeithiau ehangach (cadarnhaol a negyddol) y byddai cynlluniau ynni cymunedol yn eu cael ar y system a sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.** |
| --- |
| Nid yw ystyr y gair 'system' yn glir yn y cwestiwn hwn.<br><br>Mae Ynni Cymunedol Cymru yn ymwybodol o rywfaint o adborth sy'n codi pryderon ynghylch 'canlyniadau anfwriadol' yn y system reoleiddio neu ar y seilwaith dosbarthu, a phryderon y gallai galluogi cwsmeriaid ynni cymunedol i elwa o gostau is ynni a gyflenwir mewn marchnadoedd lleol fod yn annheg. Nid ydym yn cytuno bod tystiolaeth dda i gefnogi'r achos hwn, ac nid ydym ychwaith yn cefnogi'r egwyddor sy'n nodi oherwydd nad yw un gymuned yn gallu elwa, o ynni gwynt, er enghraifft, y dylid atal pob cymuned rhag gwneud hynny. I'r gwrthwyneb, credwn fod yr egwyddor o farchnad agored sy'n hygyrch i bawb sy'n caniatáu i bob cymuned wneud yr hyn a allant drostynt eu hunain yn fwy defnyddiol ac yn cyd-fynd â sicrhau pontio teg. Nid ydym yn cyflwyno achos o blaid cyflenwad ynni lleol yn osgoi costau'r system yn gyfan gwbl, ond yn hytrach osgoi costau y rhannau hynny o'r system sydd *DDIM* yn cael eu defnyddio fel un o swyddogaethau cydbwyso'r cyflenwad a'r galw lleol. Mae ein sgyrsiau â Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu yn awgrymu y gellir cyflawni gostyngiad buddiol a chwbl angenrheidiol yng nghyswllt uwchraddio'r grid lleol wrth fanteisio i'r eithaf ar allu marchnadoedd lleol i gydbwyso'r cyflenwad a'r galw ar lefel prif is-orsaf.<br><br>Rydym yn crynhoi prif fantais ansoddol marchnadoedd ynni lleol ac effeithiau cadarnhaol eraill yn ein papur polisi Pontio Teg, sy'n cwmpasu popeth o filio tryloyw a chynrychiolaeth gymunedol i gyfiawnder cymdeithasol a grymuso lleol:<br>"Pobl ddylai gweld y buddion o'r effeithlonrwydd sy'n codi o dechnoleg, balansio'r grid a lleihad mewn defnydd ar adegau prysur (Mae Ynni Lleol yn esiampl o gysyniad byddai'n gallu gwneud hyn o dan amodau masnachol gwahanol). Gyda mynediad i'w data eu hunain, dylai pobl allu gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r isadeiledd lleol drwy gysylltu eu defnydd gyda'r ynni sydd ar gael. Bydd pontio'n deg yn meddwl cyfiawnder wrth ddosbarthu ac yn y cyfundrefnau sy'n amgylchynu hynny. Ynghyd â buddio o gynhyrchu a dosbarthu ynni dan berchnogaeth gymunedol, rydym eisiau i ddinasyddion gymryd rhan yn y penderfyniadau sydd angen eu gwneud am ddyfodol, a'r llywodraethant fydd yn codi o hynny. Mae cael pobl yn ymwneud â'u mudiadau ynni cymunedol lleol yn helpu i wneud hyn, ac rydym yn gweithio i gael rhagor o bobl yn rhan o'r mudiad.<br>Yn ogystal, mae'r sector ynni cymunedol yn mynd i'r afael â chyfiawnder ynni a chymdeithasol drwy gronfeydd budd cymunedol sy'n ymaten i anghenion lleol. Mae'r prosiectau cymunedol sy'n cael eu hariannu'n aml yn sbarduno mentrau cynaliadwyedd lleol eraill o fewn cymunedau." |